# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-01-08 (p1): 17 Ionawr 2008""

### Deiseb cyf P-03-076:" D"eiseb gan Gymdeithas Cleifion Arennau Cymru ar gyfer deddf ar ganiatâd tybiedig.

### Diben

Deiseb newydd i'w hystyried gan y Pwyllgor.

### Y Cefndir

Mae'r deisebwyr am i Lywodraeth Cynulliad Cymru geisio pwerau deddfwriaethol, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i newid y system bresennol wrth roi organau, sef datgan dewis pendant o blaid hynny, i system lle y tybir bod caniatâd wedi'i roi yn niffyg mynegiant i'r gwrthwyneb.

Ar sail yr achos a gyflwynwyd yn adroddiad BMA Cymru Wales "Saving Welsh Lives- The Case for Presumed Consent, "pleidleisiodd aelodau Cymdeithas Cleifion Arennau Cymru (WKPA) dros gefnogi galwad BMA Cymru Wales am newid y ddeddf ar roi organau yng Nghymru i ddeddf Caniatâd Tybiedig. Cynhaliwyd y bleidlais yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol WKPA ar 7 Hydref 2006.

Yn gefnogaeth i'w deiseb, mae'r deisebwyr wedi cyfeirio at argymhelliad gan Syr Liam Donaldson, Prif Swyddog Meddygol Lloegr, yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2006-7, i newid y ddeddf ar roi organau o blaid caniatâd tybiedig.

Hefyd, cyfeiriodd y deisebwyr at benderfyniad Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i sefydlu tasglu i ymchwilio i system newydd fyddai'n tybio bod pawb yn fodlon rhoi organau ar ôl eu marwolaeth oni bai'u bod wedi datgan fel arall.

Atodir y ddeiseb, a gwybodaeth ychwanegol gan y deisebwyr i'w chefnogi, i'r papur hwn.

### Y Deisebwyr yn fodlon cyflwyno Tystiolaeth Lafar

Mae'r deisebwyr wedi datgan y byddent yn barod i ymddangos gerbron y Pwyllgor i gyflwyno'u hachos pe caent wahoddiad i wneud hynny.

### Camau i'r Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb a phenderfynu ar lwybr gweithredu sydd yn dderbyniol ganddo.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008

# Deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Deiseb: Cymdeithas Cleifion Arennau Cymru'n galw am ddeddf ynghylch caniatâd tybiedig i roi organau

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi galw ers meitin am weithredu cydunol i wella pob agwedd ar drawsblannu a rhoddodd ei chefnogaeth i egwyddor Caniatâd Tybiedig yn ei chyhoeddiad " BMA Organ Donation in the 21st century-Time for a consolidated approach"(2000). Ym mis Awst 2007, datganodd y BMA " The BMA supports a system of Presumed Consent for organ donation, with safeguards, for those over the age of 16, where relatives views are taken into account"

Yn ei adroddiad blynyddol, Gorffennaf 2007, argymhellodd Syr Liam Donaldson, Prif Swyddog Iechyd Lloegr, newid y ddeddf ar roi organau o blaid Caniatâd Tybiedig. Bellach, mae'r Ysgrifennydd dros Iechyd, Alan Johnson wedi galw am newid y system bresennol lle mae'n rhaid gwneud dewis pendant o blaid rhoi, am fod prinder affwysol o roddwyr yn y DU. Ar gyfartaledd bydd un claf bob dydd yn marw tra'i fod ar y rhestr aros am roddwr. Ar 20 Medi 2007, cyhoeddodd Mr. Johnson fod tasglu wedi'i sefydlu i ymchwilio i system newydd, system fyddai'n tybio bod pawb yn fodlon rhoi organau ar ôl marw oni bai'u bod wedi datgan fel arall.

Ym mis Awst 2006 cyhoeddodd BMA Cymru/ Wales ddogfen "Saving Welsh Lives- The Case for Presumed Consent" . Yn y ddogfen hon mae BMA Cymru/ Wales yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i achub y blaen a defnyddio'r pwerau deddfu newydd a ddatganolwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyflwyno system o ganiatâd tybiedig i roi organau, ynghyd ag amodau diogelu, yng Nghymru.

Yn ei gyfarfod cyffredinol blynyddol 7 Hydref, 2006 pleidleisiodd aelodau Cymdeithas Cleifion Arennau Cymru dros gefnogi galwad BMA Cymru/ Wales am newid y ddeddf ar roi organau yng Nghymru i ddeddf sy'n tybio caniatâd.

Mae ffigyrau trawsblaniadau yn y DU ar gyfer 2005-2006 yn dangos bod 31 o gleifion yng Nghymru wedi marw tra'r oeddent ar y rhestr aros am drawsblaniad a bod 311 o gleifion yng Nghymru yn aros am drawsblaniad. Mae astudiaethau wedi dangos y byddai dros 70% o'r bobl yn fodlon rhoi'u horganau ar ôl marw. Er hynny, dim ond 20% o'r boblogaeth sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG. Mae'r ffeithiau hyn yn dangos bod y system bresennol yn methu darparu digon o organau ar gyfer trawsblaniad.

Mewn gwledydd  lle mae'r ddeddf yn caniatáu system o ganiatâd tybiedig, ceir mwy o roi organau. Daw'r dyfyniad canlynol allan o sesiwn friffio yn Awst  2007 gan y BMA dan y teitl " Organ donation -presumed consent for organ donation"

Yn 2006 trafododd dadansoddiad manwl o ffigyrau'r gorffennol, oedd yn cynnwys 22 o wledydd dros gyfnod o 10 mlynedd, y ffactorau a allai effeithio ar nifer y rhoddwyr: cynnyrch mewnwladol crynswth y pen, gwariant ar iechyd, credoau crefyddol, y system ddeddfwriaethol, a nifer y marwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffordd ac afiechydon cerebrofasgiwlar. Y casgliad oedd "Pan fydd ffactorau eraill sy'n effeithio ar raddfeydd rhoi organau yn cael eu hystyried, mae gan wledydd lle y gweithredir y system o ganiatâd tybiedig raddau rhoi organau sydd tua 25-30% yn uwch na gwledydd lle mae gofyn datgan caniatâd." Un eglurhad yw, er mai'r teulu piau'r penderfyniad terfynol, bod llai o wrthod caniatâd mewn gwledydd lle y ceir system o ganiatâd tybiedig."

Cyf.  Abadie A, Gay S. The impact of presumed consent legislation on cadaveric organ donation: a cross-country study. J Health Econ 2006;25:599-620.

Oherwydd yr uchod mae'r deisebwyr yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru geisio pwerau deddfu o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i newid y system bresennol wrth roi organau sef datgan dewis pendant o blaid hynny, i system lle y gellir tybio bod caniatâd wedi'i roi..